**Uned 332 1.6**

**Senarios o sefyllfaoedd heriol**

Mae'r senarios sydd wedi'u cynnwys yn yr adnodd hwn wedi'u casglu o bob canolfan yn ystod digwyddiadau rhwydweithio Hydref 2025. Nid ydynt yn orfodol ond gellir eu defnyddio i gefnogi Uned 332 1.6, lle dylai dysgwyr adfyfyrio ar bob sefyllfa a chysylltu eu hymatebion â pholisi, deddfwriaeth, canllawiau ac arfer gorau perthnasol.

Dylai pob canolfan benderfynu ar nifer y sefyllfaoedd heriol maen nhw am i ddysgwyr eu cwmpasu. Anogir dysgwyr hefyd i gynnwys unrhyw brofiadau bywyd go iawn y gallent fod wedi dod ar eu traws yn ystod eu profiad ar leoliad gwaith.

Gall y gweithgaredd adfyfyriol hwn hefyd ddarparu tystiolaeth tuag at Uned 332 1.11. Mae ymgysylltu â'r senarios hyn yn gyfle gwych i ddysgwyr baratoi cyn cwblhau unrhyw adfyfyrio ffurfiol sy'n ofynnol dan dasgau strwythuredig yr unedau ymarfer.

## ✅ Diogelu

- Rydych chi'n sylwi ar aelod o staff yn gadael plentyn heb oruchwyliaeth ar y maes chwarae wrth iddynt edrych ar eu ffôn. Beth dylech chi ei wneud?
- Mae plentyn yn gwneud datgeliad ei fod yn cael ei anafu gartref. Beth yw eich ymateb uniongyrchol?
- Rydych chi'n amau esgeulustod gartref oherwydd bod plentyn yn aml yn cyrraedd yn llwglyd ac yn flinedig. Beth dylech chi ei wneud?
- Rydych chi'n sylwi ar bryder diogelu ond yn oedi cyn ei reportio oherwydd eich bod chi'n gwybod pwy yw'r teulu. Beth dylech chi ei wneud?
- Mae rhywun nad ydych wedi gweld o'r blaen yn cyrraedd y lleoliad i gasglu plentyn. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?
- Mae rhiant yn cyrraedd y lleoliad dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau i gasglu ei blentyn. Beth dylech chi ei wneud?
- Rydych chi'n gweld tresmaswr (intruder) ar y safle. Pa gamau y dylech chi eu cymryd?
- Nid oes gan eich lleoliad unrhyw weithdrefn clo, ac mae problem diogelwch yn digwydd. Beth dylech chi ei wneud?

- Rydych chi'n adnabod plentyn yn bersonol ac yn amau y gallai fod mewn perygl gartref. Pa gamau y dylech chi eu cymryd?

---

## ✅ Ffiniau ac Ymddygiad Proffesiynol

- Mae rhiant yn gofyn i chi ofalu am ei blentyn y tu allan i oriau gwaith, ond mae gan y lleoliad bolisi yn erbyn perthnasoedd personol â theuluoedd. Beth dylech chi ei wneud?
- Mae rhiant yn gofyn i chi fynychu parti pen-blwydd ei blentyn. Sut rydych chi'n ymateb i hyn yn unol â ffiniau proffesiynol?
- Mae rhiant yn anfon cais i fod yn ffrind neu'n cysylltu â chi ar y cyfryngau cymdeithasol dros fater yn y feithrinfa. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?
- Mae cydweithiwr yn postio ar gyfryngau cymdeithasol: 'Mae'r plant wedi fy ngyrru i'n wallgof heddiw, amser gwin,' gan gyfeirio at y plant ar y lleoliad. Beth dylech chi ei wneud yn unol â'r polisi lleoliad?
- Mae rhywun yn gofyn i chi rannu eich rhif ffôn personol gyda rhiant. Beth dylech chi ei wneud?
- Rydych chi'n clywed staff yn siarad am deulu un o'r plant. Sut rydych chi'n ymdrin â hyn yn broffesiynol?
- Mae cydweithiwr yn rhannu jôcs amhriodol am blant. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?
- Rydych chi'n gweld eich mentor yn feddw mewn bar y tu allan i'r gwaith. Sut rydych chi'n delio â'r sefyllfa hon yn broffesiynol?

---

## ✅ Ffiniau Rôl a Materion Lleoliad

- Mae aelod o staff yn aml yn gofyn i chi oruchwylio plant ar eich pen eich hun, sydd y tu hwnt i'ch rôl. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?
- Mae aelod o staff dro ar ôl tro yn gofyn i chi ymgymryd â thasgau sydd y tu hwnt i'ch rôl, fel goruchwylio ar eich pen eich hun neu newid cewynnau. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?
- Mae rhywun yn gofyn i fyfyriwr newydd newid cewynnau baban heb oruchwyliaeth na hyfforddiant. Beth ddylen nhw ei wneud ?

- Fe wnaethoch chi gamddeall y cyfarwyddiadau ar gyfer gweithgaredd, ac ymatebodd yr athro yn swta, gan greu awyrgylch lletchwith. Sut ydych chi'n datrys hyn yn broffesiynol?
- Mae aelodau eraill o staff yn cymdeithasu ac yn trafod gwaith heb gynnwys chi yn y sgwrs, gan wneud i chi deimlo'n unig. Sut ydych chi'n mynd i'r afael â hyn yn broffesiynol?
- Rydych chi'n cael eich gwahardd o'r ystafell athrawon ac yn teimlo'n unig. Sut ydych chi'n mynd i'r afael â hyn yn broffesiynol?

---

### ✅ Iechyd a Diogelwch

- Rydych chi'n sylwi bod y giât tu allan yn rhydu ac yn ansefydlog yn ystod y tywydd gwyntog, ond nid yw'r staff yn ymwybodol. Beth ddylech chi ei wneud yn ôl canllawiau iechyd a diogelwch?
- Rydych chi'n sylwi ar gemegion glanhau sydd wedi'u gadael o fewn cyrraedd plant. Beth rydych chi'n ei wneud?
- Mae'r allanfa dân wedi'i rhwystro gan offer yn ystod gweithgaredd. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?
- Mae'r lleoliad yn defnyddio'r un byrddau torri ar gyfer pob byrbryd, ond mae gan blentyn alergedd difrifol. Beth dylech chi ei wneud?

---

### ✅ Rheoli Ymddygiad

- Mae aelod o staff yn dweud eich bod chi'n "rhy oddefgar" gyda phlant ac mae angen i chi fod yn fwy llym. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?
- Mae dau aelod o staff yn dadlau ynghylch sut i ymdrin ag ymddygiad plentyn o flaen yr holl blant. Beth ddylech chi ei wneud i gynnal proffesiynoldeb a diogelu plant?
- Mae plentyn yn defnyddio iaith hiliol. Sut rydych chi'n ymdrin â hyn?
- Mae plentyn yn poeri yn ystod gweithgaredd. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?

---

### ✅ Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Sut fyddech chi'n sicrhau bod teuluoedd LHDTCRhA+ yn teimlo'n rhan o'r lleoliad?
- Rydych chi'n sylwi ar wahanol gredoau crefyddol ymhlith staff a theuluoedd. Sut rydych chi'n sicrhau bod iaith barchus yn cael ei defnyddio a bod pawb yn teimlo fel eu bod nhw'n cael eu cynnwys?

- Mae plentyn gydag  AAAA wedi'i eithrio o weithgaredd grŵp. Sut rydych chi'n addasu'r gweithgaredd i sicrhau cynhwysiant?
- Mae rhiant yn mynegi safbwyntiau gwahaniaethol am deulu arall. Sut rydych chi'n ymateb yn broffesiynol i hyn?
- Rydych chi'n sylwi nad yw adnoddau'r lleoliad yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol. Sut rydych chi'n mynd i'r afael â hyn?
- Sut rydych chi'n cefnogi plant ag anableddau cudd?
- Plant mewn gofal - sut rydych chi'n eu cefnogi?
- Mae plentyn yn eich gofal yn profi profedigaeth. Sut rydych chi'n eu cefnogi nhw?

---

## ✅ Rhyngweithio gyda Rhieni a Theulu

- Mae rhiant yn mynnu y dylai ei blentyn ddod â thegan o'u cartref, er gwaethaf polisi 'dim teganau personol' y lleoliad. Maen nhw'n mynd yn rhwystredig pan maent yn cael eu hatgoffa o'r rheol. Sut ydych chi'n ymdrin â'r sefyllfa hon?
- Mae rhiant yn cwyno oherwydd eich bod wedi defnyddio termau meddygol yn hytrach na thermau llafar ar gyfer rhannau o'r corff. Sut rydych chi'n ymateb yn broffesiynol i hyn?
- Mae rhiant yn honni bod ei blentyn wedi'i esgeuluso ar ôl cael ei anafu yn y maes chwarae. Sut rydych chi'n ymateb i hyn yn unol â'r gweithdrefnau diogelu a chwynion?
- Dydy rhiant ddim yn hapus oherwydd bod cot ei blentyn ar goll ac yn mynnu mynd i mewn i'r lleoliad i chwilio amdano. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?
- Mae rhieni'n anghytuno ar sut i reoli ymddygiad ei blentyn. Sut rydych chi'n ymdrin â hyn yn broffesiynol?
- Mae rhiant yn mynnu bod ei blentyn yn iawn i ddychwelyd i'r lleoliad ar ôl chwydu ddoe, er nad yw 24 awr wedi mynd heibio. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?
- Mae rhiant plentyn yn y carchar. Sut rydych chi'n cefnogi'r plentyn?

---

## ✅ Adrodd yn ôl a Diogelu Data

- Rydych chi'n gweld ffeil bersonol plentyn wedi'i gadael ar agor ar ddesg. Beth dylech chi ei wneud?
- Mae rhiant yn gofyn am wybodaeth am blentyn arall. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?

- Rydych chi'n dyst i ddamwain, ond mae'r ffurflen ddamwain yn cynnwys gwybodaeth anghywir. Sut rydych chi'n ymateb i hyn?
- Mae rhywun yn gofyn i chi arwyddo ffurflen dyst meddyginiaeth, ond nid oeddech yn bresennol pan gafodd ei weinyddu. Beth dylech chi ei wneud?

---

### ✅ Datblygiad Proffesiynol ac Arolygu

- Rydych chi'n awgrymu ffordd newydd o ymgysylltu â phlant, ond mae uwch aelod o staff yn gwrthod eich syniad, gan ddweud, 'Myfyriwr yn unig wyt ti.' Sut ydych chi'n ymateb yn broffesiynol i hyn?
- Mae arolygwyr ESTYN/AGC yn cyrraedd eich lleoliad. Sut rydych chi'n paratoi ac yn ymateb yn broffesiynol?